# POLISI A CHYNLLUN CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL

Mabwysiadwyd y polisi a'r cynllun gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 28 Medi 2021.

Nod Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yw lleihau ein heffaith amgylcheddol er mwyn bod yn garbon niwtral erbyn 2035, gan gydnabod bod gennym gyfrifoldeb tuag at yr amgylchedd y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Mae'r polisi hwn yn nodi pam mae cynaliadwyedd yn bwysig inni; sut y bwriadwn weithredu, cryfhau a datblygu ffyrdd cynaliadwy o weithio; a sut y byddwn yn adolygu ac yn asesu llwyddiant ein cynllun.

**Y cymhelliant dros weithredu er budd yr amgylchedd**

Pam mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn bwysig i Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru;

- Arbed/rheoli costau a diogelu'r cwmni ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau ei gadernid
- Mae'n bwysig o ran moeseg
- Iechyd a llesiant y bobl y gweithiwn ac yr ymgysylltwn â nhw
- Canfyddiad y cyhoedd.

**Cynllunio Cynaliadwy**

Yn ystod y tair blynedd nesaf bydd Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn anelu at adeiladu ar arferion da, gan ymwreiddio syniadau cynaliadwy yn niwylliant y sefydliad. Byddwn yn gweithio gyda Chanolfan Mileniwm Cymru a'i sefydliadau preswyl, a hefyd gyda rhanddeiliaid allanol, i ddatblygu mwy ar ein cynllun gweithredu. Byddwn yn buddsoddi mewn cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer ein holl weithwyr, a byddwn yn ymdrechu'n barhaus i herio'r ffordd y gweithiwn a chyda phwy y gweithiwn. Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno newidiadau radical yn y ffordd y gweithredwn, gan fod yn atebol am ein gweithredoedd a'n targedau.

**Prif effeithiau ein gweithgareddau**

- Teithio: fel cwmni teithiol, mae teithio ar draws Cymru a'r byd yn cyfrannu'n fawr at ein hôl troed carbon
- Gweithgareddau o fewn yr adeilad a'r swyddfa: defnyddio ynni, allyriadau carbon, argraffu, TG, cyflenwadau a gwasanaethau, gwastraff
- Prosiectau a chynyrchiadau: y deunyddiau a ddefnyddir, ein hôl troed carbon yn sgil gweithio gydag artistiaid rhyngwladol

**Ymrwymiadau amgylcheddol allweddol**

- Defnyddio llai o ynni yn yr adeilad a lleihau allyriadau'r adeilad
- Lleihau'r allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio (allyriadau sioeau teithiol, a theithio yn gyffredinol)
- Gwneud ein cynyrchiadau'n fwy gwyrdd – ymwreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol yn ein briff
- Buddsoddi mewn technoleg ddigidol er mwyn lleihau ein hôl troed carbon

- Gwella ymwybyddiaeth ein gweithwyr trwy gyfathrebu ac ymgysylltu â'n staff ynghylch materion amgylcheddol a thrwy gynnig hyfforddiant iddynt yn y maes
- Mynd ati'n barhaus i wella a monitro ein perfformiad amgylcheddol

**Ymrwymiadau amgylcheddol allweddol eraill**

- Ymwreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol yn y sefydliad trwy gyfrwng gwerthoedd, polisïau a ffyrdd o weithio
- Sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth amgylcheddol
- Cyflawni achrediad Teithio Gwyrdd Creadigol
- Cyflawni Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

**Adolygu'r polisi a'r cynllun gweithredu**

Tîm yr uwch-arweinwyr sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd y polisi amgylcheddol hwn yn cael ei roi ar waith. Fodd bynnag, mae gan bob gweithiwr gyfrifoldeb o ran sicrhau bod nodau ac amcanion y cynllun gweithredu'n cael eu cyflawni. Bydd y tîm rheoli'n monitro'r cynllun gweithredu bob chwarter, a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol gan y Bwrdd mewn ymgynghoriad â'r gweithwyr pan fo angen.

## Cynllun Gweithredu

| Amcan | Camau gweithredu | Y sefyllfa ar hyn o bryd | Erbyn pryd / Y sawl sydd â'r prif gyfrifoldeb |
|---|---|---|---|
| Sicrhau lleihad o 5% yn yr ynni a ddefnyddiwn dros y ddwy flynedd nesaf | ▪ Cynnal adolygiad llawn o'r ynni a ddefnyddiwn a phennu targedau mewnol ar gyfer defnyddio ynni mewn meysydd penodol<br>▪ Adolygu ein cyflenwyr nwy a thrydan<br>▪ Lleihau gwastraff trwy ailgylchu deunyddiau pa bryd bynnag y bo hynny'n ymarferol<br>▪ Diffodd y goleuadau a'r gwres mewn mannau na chânt eu defnyddio pa bryd bynnag y bo modd (ystyrir goblygiadau iechyd a diogelwch, yn enwedig mewn coridorau, y tu ôl i'r llwyfan ac ar risiau)<br>▪ Gweithio gyda Chanolfan Mileniwm Cymru a sefydliadau preswyl i lunio strategaeth gydlynus | Rydym yn ymchwilio i gwmnïau addas ac yn cysylltu gyda sefydliadau preswyl eraill i weld a ellir ymestyn yr adolygiad a rhannu'r costau. | Rhagfyr 2021 / Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Rhagfyr 21 / Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Parhaus / yr holl staff<br><br>Parhaus / yr holl staff |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gwanwyn 22/Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau |
| Lleihau neu wrthbwyso ein hôl troed carbon mewn perthynas â theithio | ▪ Annog pob gweithiwr i ddefnyddio dulliau teithio mwy addas, gan ddewis beicio, cerdded, rhannu ceir neu drafnidiaeth gyhoeddus. Sicrhau bod ein gweithwyr yn ymwybodol o gynlluniau arbennig, fel 'cynlluniau beicio i'r gwaith'<br>▪ Buddsoddi mewn technoleg ddigidol a datblygu'r ffordd y'i defnyddir er mwyn lleihau'r angen i deithio i gyfarfodydd<br>▪ Adolygu'r ffordd y teithiwn wrth gynnal ein sioeau a'r cwmnïau y dewiswn deithio gyda nhw | Mae mwy o weithwyr yn defnyddio dulliau amgen o deithio oherwydd Covid. Mae'r cwmni wedi troi at ddull hybrid o weithio, gan ddefnyddio technoleg er mwyn lleihau cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Byddwn yn parhau i wneud hyn.<br><br>Bydd y Pennaeth Cynhyrchu yn adolygu hyn. | Parhaus / Y Tîm Uwch-arweinwyr<br><br>Parhaus / Y Tîm Uwch-arweinwyr<br><br>Gwanwyn 22 / Y Tîm Cynhyrchu |
| Briffio ein cydweithwyr er mwyn cefnogi cynlluniau a chynyrchiadau mwy cynaliadwy | ▪ Gosod targedau ar gyfer cynyrchiadau a phrosiectau a rhoi gwybod i'n cydweithwyr am y targedau hyn ar ddechrau'r broses<br>▪ Annog cynllunwyr i gael gafael ar gynhyrchion gan gwmnïau moesegol. Sicrhau amser a chyllideb ychwanegol i ategu hyn | | 2021 ymlaen / Y Tîm Cynhyrchu<br><br>2021 ymlaen / Y Tîm Cynhyrchu |
| Cyflawni Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd | ▪ Datblygu gweithgor mewnol a chanddo lysgenhadon gwyrdd<br>▪ Hyfforddi a datblygu'r gweithwyr a'u hannog i weithio mewn modd mwy amgylcheddol gyfrifol | Datblygwyd Gweithgor | Parhaus / Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br><br>Parhaus / Y Tîm Uwch-arweinwyr |